

WILLIAMS, EDWARD ('Iolo Morganwg' 1747 - 1826) bardd a hynafiaethydd

Enw: Edward Williams
Ffugenw: Iolo Morganwg
Dyddiad geni: 1747
Dyddiad marw: 1826
Plentyn: Taliesin Williams
Rhiant: Edward Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd a hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Griffith John Williams

Mab Edward Williams o bentref Pennon ym mhlwyf Llancarfan ym Morgannwg. Fe'i ganed (meddai ef ei hun) ar y ddegfed o Fawrth 1747. Symudodd ei rieni wedi hynny i bentref cyfagos Trefflemin, ac yno y bu ei gartref (ar wahân i rai ysbeidiau) hyd ei farw. Dywaid ef ei hun na bu mewn ysgol ond iddo ddsygu darllen wrth wlyio ei dad yn torri llythrennau ar gerrig beddau. Yr oedd ei fam yn wraig alluog, a gellir casglu mai hi a fu'n ei hyfforddi yn ei ieuencid. Dywaid mai bardd o'r enw Edward Williams o Lancarfan a ddsygodd elfennau cerdd dafod iddo, ond daeth yn fore i gysylltiad a beirdd Blaenau Morgannwg, sef **Lewis Hopkin**, **Siôn Bradford**, a **Rhys Morgan**. Cafodd hefyd gyfle i ddarllen llawysgrifau Cymraeg. Rhaid rhestru **Thomas Richards**, Llangrallo, a **John Walters**, Llandochoau, ymhlith ei athrawon, a hyn sy'n egluro'r diddordeb mawr a gymerai yng ngeirfa'r iaith. Felly y dechreuodd brifio'n ysgolhaig Cymraeg. Dysgodd grefft ei dad, sef crefft y saer maen. Bu ar daith yn y Gogledd tua 1771-2, ac yn 1773, aeth ef a'i frodyr i Lundain. Yno cyfarfu ag '**Owain Myfyr**' ac aelodau eraill Cymdeithas y Gwyneddigion, a chafodd gyfle i fynychu cyfarfodydd y gymdeithas honno a hefyd i ddarllen llawysgrifau'r **Morrisiaid**. Bu'n gweithio wrth ei grefft nid yn unig yn Llundain ond hefyd yng Nghaint. Yna yn 1777 dychwelodd i Fryste, ac wedi hynny i Morgannwg. Priododd yn 1781, ac yn 1783 ymsefydlodd yn Llandaf. Cafodd amser go helbulus, ac yn y man fe'i cawn yn ffermio tir a gawsai gan ei dad-yng-nghyfraith ym mhlwyf Tredelerch (sef Rhymni, heddiw) yn ymyl Caerdydd. Nid hawdd olrhain ei gamre yn y cyfnod hwn, ond yr oedd yn y carchar yng Nghaerdydd yn 1787. Wedi hynny, dychwelodd i Drefflemin. Aeth i Lundain yn 1791, ac yno y bu (ond am un ysbaid byr) hyd 1795. Dyma pryd y dechreuodd egluro athrawiaethau barddas, a chynnal gorseddau derwyddol ar Fryn y Briallu. Daeth i gysylltiad â gwyr a gydymdeimlai â'r chwyldro yn Ffrainc a hefyd ag arweinwyr yr Undodiaid. Dychwelodd i Drefflemin yn 1795, ac yn 1796 cafodd waith o dan y Bwrdd Amaethyddiaeth i ddisgrifio cyflwr y tir a'r ffermydd ym Morgannwg a Sir Gaerfyrddin. Bu'n cynorthwyo '**Gwallter Mechain**' mewn cyfnod diweddarach pan oedd y gwr hwnnw'n paratoi ei adroddiad ar gyflwr amaethyddiaeth yng Nghymru. Fe'i dewiswyd yn un o olygyddion *The Myvyrian Archaeology of Wales*, ac yn 1799, bu ar daith trwy Ogledd Cymru yn casglu defnyddiau. Erbyn y cyfnod hwn yr oedd yn Undodwr, ac ef a oedd wrth y llyw pan sefydlwyd Cymdeithas y Dwyfundodiaid yn Neheubarth Cymru yn 1802. A'i waith ef ydyw'r *Rheolau a Threfniadau* a gyhoeddwyd yn 1803. Ni bu ryw lawer o gyfathrach rhyngddo a'i gyfeillion Llundeinig wedi tua 1805. Yn nes ymlaen, cododd cenhedaeth newydd i ymddiddori yn hanes a llenyddiaeth Cymru, gwyr y cymdeithasau taleithiol, ac edrychent hwy arno fel un o'r prif awdurdodau ar y pynciau hynny. Pan gynhaliodd Cymdeithas Dyfed eisteddfod yng Nghaerfyrddin yn 1819, llwyddodd i wneuthur yr orsedd yn rhan hanfodol o'r gweithrediadau. Fe'i hanogwyd i gyhoeddi'r ysgrifau y mynnai iddo eu darganfod ym Morgannwg, a bu wrthi yn ei hen ddyddiau yn trefnu i argraffu *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain*. Bu farw yn Nhrefflemin ar 18 Rhagfyr 1826. Bu iddo bedwar o blant, a datblygodd y mab, **Taliesin Williams** yn ffigur amlwg ym mywyd llenyddol y cyfnod dilynol.

Ychydig iawn o'i waith a gyhoeddodd er iddo gynnwys llawer o'i ffugiadau yn *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, 1789, yn *The Myvyrian Archaeology of Wales*, 1801, 1807, ac yn *Y Greal*, 1805-7. Cyhoeddodd farwnad i'w athro, **Lewis Hopkin**, yn 1772 o dan y teitl, *Dagrauyr Awen*, a dwy gyfrol o farddoniaeth Saesneg, *Poems, Lyric and Pastoral*, 1794. Cyfansoddodd lawer o emynau, a chyhoeddwyd hwy yn 1812, 1827, a 1834 o dan y teitl, *Salmawr yr Eglwys yn yr Anialwch*. Cyhoeddodd rai man lyfrynnau eraill.

Un o'r achosion amlycaf ym meddwl lolo o'r 1790au ymlaen oedd yr ymgyrch i ddiddymu caethwasiaeth eiddo ('chattel slavery'). Dyddiwyd ei gerdd ddiddymol gynharaf i c.1789 - yn ystod cyfnod o dwf sylweddol yn yr ymgyrch diddymol ledled Prydain - a cheir sawl ymosodiad ffyrnig ar y fasnach Brydeinig mewn pobl gaethiwedig yn ei farddoniaeth a'i ohebiaeth. Fel rhan o'i ymgyrchu, fe geisiodd atal caethiwyddion ym Mryste rhag tanysgrifio i'w lyfrau, gwerthodd siwgr 'rhydd' o India'r Dwyrain yn ei yrfa fer fel siopwr yn y Bont-faen (yn lle siwgr o blanhigfeydd India'r Gorllewin, oedd yn defnyddio caethlafur), a gwrthododd o leiaf ran o'r arian a gynigiwyd iddo gan ei frodyr, oedd yn gaethiwyddion yn Jamaica. Serch hynny, derbyniodd lolo gymorth oddi wrth ei frodyr yn ystod cyfnodau anodd yn ariannol, ac yn 1815 fe dderbyniodd gymynrodd ar ei ran ei hun a'i deulu o ystad ei frodyr yn Jamaica (ystad nad oedd, erbyn hynny, yn cynnwys gweithwyr caethiwedig). Mae lolo, felly, yn mynnu lle blaenllaw yn hanesyddol ymysg ymgyrchwyr Cymreig yn erbyn caethwasanaeth, a hefyd ymysg y Cymry sydd wedi elwa o gaethwasanaeth.

Yr oedd yn ŵr amryddawn. Cymerai ddiddordeb deallus nid yn unig yn hanes llenyddiaeth Gymraeg ond hefyd mewn pynciau megis amaethyddiaeth, garddwriaeth, pensaernïaeth, daeareg, llysoegydd, gwleidyddiaeth, hanes crefydd, diwyddiaeth, etc. Yr oedd yn fardd rhagorol, ac y mae iddo le arbennig yn hanes y canu rhamantaidd yng Nghymru. Y peth rhyfeddaf ynglŷn ag ef yw ei feddwl cymhleth a throfau, ond ofer fyddai trafod y pwnc hwnnw yma.

Wedi ei farw, rhwymodd ei fab ei bapurau'n gyfrolau. Y mae'r cyfrolau hynny yn awr yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Awduron

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

Diwygiwyd gan y tÃ©m golygyddol, 2024

Ffynonellau

Elijah Waring, *Recollections and Anecdotes of Edward Williams, the bard of Glamorgan, or, Iolo Morganwg* (London 1850)

T. D. Thomas, *Bywgraffiad Iolo Morgannwg, B.B.D., sef Edward Williams, diweddar fardd ac hynafiaethydd o Forganwg* (Caerfyrddin 1857)

Oxford Dictionary of National Biography

G. J. Williams, *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (1926)

G. J. Williams, *Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol, 1922, 1924, 1927, 1928*

G. J. Williams, *Iolo Morganwg* (Caerdydd 1956)

Andrew Davies, "'Uncontaminated with Human Gore?': Iolo Morganwg, Slavery, and the Jamaican Inheritance", in Geraint H. Jenkins, *A rattleskull genius: the many faces of Iolo Morganwg* (Cardiff 2009)

Darllen Pellach

Geraint H. Jenkins, *Bard of liberty: the political radicalism of Iolo Morganwg* (Cardiff 2012)

Ffion Mair Jones, *"The bard is a very singular character": Iolo Morganwg, marginalia and print culture* (Cardiff 2010)

Geraint H. Jenkins, *A rattleskull genius: the many faces of Iolo Morganwg* (Cardiff 2009)

Marion Löffler, *The literary and historical legacy of Iolo Morganwg 1826-1926* (Cardiff 2007)

Erthygl Wicipedia: [Iolo Morganwg](#)

Gweithiau

Archifau LIGC: NLW MS 13107B: History of the British Bards

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Iolo Morganwg and Taliesin ab Iolo manuscripts and papers](#)

VIAF: [36956392](#)

Wikidata: [Q547716](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Williams, G. J., (1953). WILLIAMS, EDWARD ('Iolo Morganwg' 1747 - 1826) bardd a hynafiaethydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-EDW-1747>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwci
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LIGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn eiddo gan
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government